# Cenn@d

EBRILL 16 2025 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD A SEREN CYMRU* RHIF 216


## A gafwyd 'ystyr i'r meini hyn'?
## Cynhadledd EBC ar ei defnydd o adeiladau – 2 Ebrill, Llandudno



Y Parch. Nan Powell-Davies, Ysgrifennydd Cyffredinol EBC




Y Parch. Aneurin Owen, Llywydd y Gymanfa Gyffredinol



Y gynulleidfa niferus



Panelwyr sesiwn y bore – o'r chwith i'r dde: Phil Lloyd, Tonteg; Steffan Morris, Llandysul; Jos Edwards, Blaenau, Eric Jones, Bangor; Neil Kirkham, Llandudno ac Ieuan Wyn Jones, Llangefni

Wrth gloi a chloriannu'r cyfraniadau i'r gynhadledd arloesol hon a gynhaliwyd yng Nghapel y Gloddaeth, Llandudno, cyfeiriodd y Parch. Aneurin Owen, Llywydd Cymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru, at sawl 'c' sy'n bwysig inni gofio amdanyn nhw wrth adeiladu ar yr hyn a ddigwyddodd yno.

Y **cyntaf** oedd **Cadw**, a'r siom a gafwyd wrth i'r mudiad fethu gweld ei ffordd yn glir i ymuno efo ni yn y gynhadledd. (Anfonwyd datganiad o'r gynhadledd yn mynegi'r siom honno, a chynrychiolaeth o dri enwad yno, yn cynrychioli ein gofal dros fil o fannau addoli sy'n adeiladau rhestredig ac yn rhan o'n hetifeddiaeth Gristnogol yng Nghymru.)

**Cyffroi** – roedd clywed am waith newydd gan arloeswyr ifanc dan nawdd y Cyfundeb yn chwa o awyr iach ysbrydol ar ddechrau'r dydd. Soniodd Jos Edwards o Flaenau Ffestiniog am weithio yn adeiladau'r gymuned, gan glosio at y gymuned honno felly. Cyfeiriodd Steff Morris o'r Ffynnon, Llandysul, at weithio mewn canolfan hwylus a phwrpasol i'r gwaith.

Cawsom ein cyffroi hefyd o glywed am yr hyn sydd wedi gallu digwydd i lawer o adeiladau sydd mor werthfawr yn ein golwg, fel Moreia, neu ganolfan Glanhwfa bellach, yn Llangefni. Rhannodd Ieuan Wyn Jones am y weledigaeth oedd wedi dwyn ffrwyth drwy ddygnwch a dyfalbarhad yno.

Roedd yn ysbrydoliaeth clywed gan Neil Kirkham am y gwaith oedd wedi digwydd ar Gapel y Gloddaeth, lle roedd y gynhadledd yn cael ei chynnal. Yn wir, cawsom ein cyffroi a'n calonogi gan gynifer o straeon newyddion da ledled Cymru, yn cynnwys cyfraniad Owen Griffiths ar ddefnyddio nifer o gapeli gwag yn ardal Casnewydd, Pontypridd a'r Cymoedd er gwasanaethu a thystio yn eu cymunedau.

**Conglfaen** – pwysleisiodd nifer o'r siaradwyr y conglfaen ysbrydol sydd inni yng Nghrist – yn dramgwydd i rai, ond yn allu Duw ar waith inni (1 Corinthiaid 1:18). Dyma'r rheswm dros fodolaeth ein hadeiladau eglwysig, fel y clywsom gan yr hanesydd Dr Eryn White, wrth iddi gyfeirio at y rhyddid i addoli a'r noddfa a ddymunai'r anghydffurfwyr cynnar i addoli'r Arglwydd fel y dymunent. Awgrymodd y Parch. Aneurin Owen, 'Dyna enw da fyddai Conglfaen i gymdeithas dai y gellid ei sefydlu i gymryd gofal o holl stoc tai'r eglwysi, pe byddai ewyllys i wneud hynny!'


*(parhad ar y dudalen nesaf)*



Chwifiwn ein baneri
Baneri'r Pasg yng nghanol Caerdydd
**Tudalen 3**

O Gefn Gwlad
**Tudalen 4**

Llythyr Agored gan Eglwysi Cymru ynglŷn â thoriadau Cymorth y Deyrnas Unedig
**Tudalen 7**

## *A gafwyd 'ystyr i'r meini hyn'?*

*(parhad o dudalen 1)*



Ieuan Wyn Jones, Canolfan Glanhwfa, Llangefni



Panelwyr y prynhawn, o'r chwith i'r dde: Graham Thomas, Adam Hitchings, Bex Kentfield, Elfed Lewis, Ieuan Wyn Jones, Owen Griffiths, Eryn White, John Roberts (Nan P-Davies ar ei thraed)



Dafydd Iwan yn trafod yr argyfwng tai yn ein cymunedau



Bex Kentfield, Housing Justice Cymru

Lluniau: Gwyn Rhydderch

**Cydenwadol** – gwelsom fod y dasg o reoli a datblygu ein hadeiladau yn waith y mae arnom angen help ein gilydd ynddo. Clywsom am waith Christian Tucker-Williams o Undeb Bedyddwyr Cymru, a'u cynllunio ynglŷn â hyfywdra eu hadeiladau. Sylweddolwyd bod angen llawer mwy nag un swyddog i ofalu a datblygu, i gynllunio'n gydenwadol, i ymgynghori a chysylltu prosiectau, a dod â phobl at ei gilydd. Mae gwir angen gweithio fel tîm cydenwadol i wireddu potensial ein hadnoddau ac i fanteisio ar gyfleoedd cenhadol.

**Cymunedol** – ystyriwyd lle canolog llawer o'n hadeiladau eglwysig yn eu cymunedau. Mae angen sicrhau bod yr adeiladau yma eto'n gwasanaethu eu cymunedau. Cafwyd sylwadau am yr argyfwng tai yn ein cymunedau gan Dafydd Iwan, a her gan Bex Kentfield o Housing Justice Cymru i ystyried nid yn unig werth masnachol uchaf ein hadeiladau, ond y gwerth cymunedol a'r gwerth cenhadol a Christnogol uchaf hefyd.

**Cyfathrebu mewnol** – gan John Roberts, oedd yn y gynhadledd fel gohebydd ar gyfer y cyfryngau, cawsom ein herio i rannu ein storïau o newyddion da. Hefyd, soniodd am yr angen i gyfathrebu'n fewnol efo ni ein hunain er mwyn inni gael ein calonogi, fel a gawsom wrth rannu a chlywed am bob math o brosiectau a phosibiliadau yn y gynhadledd.

**Cyfansoddiadol** – mae'n eithriadol bwysig ein bod yn gweithredu o fewn rheolau a bwriadau ein fframwaith elusennol ac eglwysig i ddiogelu amcan yr eglwys o ledaenu'r Newyddion Da am Iesu Grist. Mae'n bwysig ein bod yn defnyddio ein holl adnoddau i wneud hynny (a pheidio â'u claddu, fel yn nameg y talentau, nac ychwaith eu pentyrru, fel yn nameg yr ynfytyn cyfoethog a gasglodd i'w ysguboriau a gorffwys yn ôl wedyn.)

**Cydgynllunio** – a chynllunio ymlaen. Mae angen nodi ein hadnoddau a'n portffolio adeiladau, a gwybod eu gwerth. Soniodd y Parch. Aneurin Owen am y trosolwg yr oedd wedi ei gael fel Llywydd y Gymanfa Gyffredinol ar waith a mannau allweddol ein henwad ac enwadau eraill ar draws Cymru ac yn ehangach. Ychwanegodd fod angen nodi'r mannau y gellid eu datblygu wrth edrych ymlaen, er mwyn creu pethau newydd, cynhyrfus. Wrth weithio'n gydenwadol mewn ardaloedd, fe ellid cyflwyno portffolio o adeiladau i Gymdeithas Tai leol – pum neu chwe adeilad o bosibl, a fyddai'n fwy deniadol i Gymdeithas Tai fentro. I fod yn effeithiol, byddai angen gwneud hyn bedair neu bum mlynedd ymlaen.

Mynegwyd tristwch a rhwystredigaeth yn y gynhadledd wrth weld llawer o gapeli wedi eu gwerthu ac yn mynd a'u pen iddyn nhw, a'u potensial heb ei wireddu mewn unrhyw ffordd.

**Canolfannau** – mae dwy ganolfan breswyl yn parhau i fod dan ofal Eglwys Bresbyteraidd Cymru, ac yn parhau i'n gwasanaethu ni a'r eglwys yn ehangach yng Nghymru. Mae'r fath fuddsoddiad wedi ei wneud gennym mewn gwaith ymhlith yr ifanc ac mae angen ei barhau ar gyfer cenhadaeth ymysg y genhedlaeth newydd.

**Cenhedlaeth newydd** – mae'r adnod a roddwyd yn deitl i'r gynhadledd: 'Beth yw ystyr y meini hyn?' (Josua 4:6) yn cyfeirio at hanes y cenedlaethau a ddilynodd brofiad mawr yr Exodus, y crwydro yn yr anialwch a chroesi'r Iorddonen. A heddiw, mae gennym waith i'w wneud er sicrhau y bydd ein plant yn dal i allu gofyn am y meini a'u hystyr, oherwydd bod yr Arglwydd wedi ymweld â ni eto yn y cyfnod hwn ac wedi ein hadnewyddu â sêl ei Ysbryd.

Diolchodd Aneurin am y croeso a estynnwyd i'r 120 ohonom i'r man arbennig sydd yng Nghapel y Gloddaeth, Llandudno; i staff yr enwad am drefniadau'r gynhadledd; ac i'r Ysgrifennydd Cyffredinol am lywyddu'r sesiynau drwy'r dydd, gan lwyddo i gadw'n rhyfeddol at yr amserlen dynn oedd yn cynnwys 20 o siaradwyr gwahanol.

Mae fideos o gyflwyniadau'r gynhadledd i gyd ar gael: https://www.youtube.com/playlist?list=PLH4JpblhvRT6iV3WiDdmFNGDHU-TdtozO

*Huw Powell-Davies*

# Chwifiwn ein baneri

## Baneri'r Pasg yng nghanol Caerdydd







Os byddwch yng Nghaerdydd dros gyfnod y Pasg, yna fe fydd yn anodd ichi beidio â sylwi ar y baneri dwyieithog sy'n cael eu gosod hyd y brifddinas dros yr ŵyl. Ar grŵp WhatsApp gweithwyr EBC bu llawer o drafod y geiriad mwyaf addas i gyfleu neges y Pasg, yn ogystal ag ymgynghori ag Arfon Jones, cyfieithydd beibl.net. Dewiswyd y geiriau Cymraeg a welwch ar y faner yn y llun: 'Trystia Iesu, Mae e'n fyw, Dewch i addoli' i fynd ar un ochr y faner, a'r geiriad Saesneg: 'Trust in Jesus, He is alive, Come to church' ar yr ochr arall.

Mae Arfon yn defnyddio'r ferf 'trystio' yn aml yn beibl.net, a byddai 'Ymddiried a yn Iesu' yn swnio'n glogyrnaidd a hen ffasiwn, meddai. 'Fy egwyddor i o ran cywirdeb gramadegol ydy ei fod yn iawn cyn belled â'i fod yn ddealladwy, a bod angen ei gadw mor syml â phosibl'.

Aeth yn ei flaen i drafod y ddau gymal nesaf, sef 'Mae e'n fyw, Dewch i addoli', gan ddweud, 'Hen gyfieithiadau o'r Beibl ar y cyfan sy'n rhoi priflythrennau i ragenwau sy'n cyfeirio at Dduw. Mae fersiynau modern yn amrywio, yn dibynnu ar arddull a'r gynulleidfa dan sylw. Byddaf i'n tueddu i dargedu'r genhedlaeth iau. Dwi'n tueddu i ffafrio "Dewch i addoli" (yn hytrach na "Tyrd i addoli") am fod y Saesneg, "Come to church", yn pwysleisio'r agwedd gymunedol sydd yna i addoliad.'

Owen Batstone, gweinidog Eglwys Bresbyteraidd Park End yng Nghaerdydd, sy'n gyfrifol am y fenter, ac eglurodd ychydig am y cefndir a'i weledigaeth.

'Mae Cristnogion modern yn rhoi pwyslais cryf ar dawelwch, sancteiddrwydd personol, a thystio i'n ffydd wrth ffrindiau neu gymdogion.

'Ond pa mor dda ydyn ni am wneud hynny mewn gwirionedd? A bod yn onest, pryd oedd y tro diwethaf i chi wahodd rhywun i'ch eglwys? Eto i gyd, oherwydd y pwyslais hwn, gallwn esgeuluso bod â llais yn y byd cyhoeddus. Mae'n fethiant dwbl – dydy ein tystiolaeth bersonol ni ddim yn effeithiol, a dydyn ni ddim chwaith yn ymwneud â phrosiectau ehangach.

'Mae'r llais Cristnogol yn y byd cyhoeddus wedi distewi bron yn llwyr. Rydym ni wedi colli'r dydd, bron, i ideolegau a bydolygon niweidiol. Felly, pan sylweddolais ei bod hi'n bosib gosod baneri ar bolion lamp o amgylch y ddinas yma, fe es i ati i roi cynllun ar waith: codi arian ar gyfer 50 o faneri'r Pasg yn datgan, yn ddwyieithog: "Trystia Iesu. Mae e'n fyw. Dewch i addoli."

'Roedd y rhan "Dewch i addoli" yn hollbwysig, oherwydd wrth inni addoli Iesu efo'n gilydd yr ydyn ni'n dysgu beth mae'r atgyfodiad yn ei olygu i ni. Ychydig o bobl erbyn hyn fyddai'n gwybod beth ydy ystyr "Mae ef wedi ei gyfodi".

'Dechreuais y fenter ddiwedd Mawrth, gan adael dim ond chwe diwrnod i godi'r £14,000 oedd ei angen. Fe wnes i ledaenu'r gair ymhlith fy nghyfeillion yn y ddinas a'r cyffiniau, a thrwy garedigrwydd Duw, o fewn tridiau, roeddem ni wedi codi £18,000. Roedd eglwysi yn awyddus iawn i uno yn y prosiect. Nawr, mae 68 o faneri Pasg yn cael eu hargraffu, ac fe fyddan nhw'n cael eu harddangos am bythefnos dros y Pasg. Os hoffech chi gael mwy o'r hanes neu help i wneud rhywbeth tebyg yn eich ardal chi, rhowch wybod i mi!'

# O Gefn Gwlad

### Bore'r trydydd dydd

Bum mlynedd yn ôl mi fentrais sgrifennu yn *Y Goleuad* am yr atgyfodiad a syniadau un diwinydd (Adrian B. Smith) amdano, a chael un ymateb. Dyma fentro eto at y pwnc, a hynny falle am ei fod yn dal yn ddryswch i mi.

Y mae yna lawer yn ein byd sy'n credu yn atgyfodiad y corff, ac mai dyna ddigwyddodd ar fore'r trydydd dydd. Gwyn eu byd y rhai sy'n credu hynny, os yw'n gysur iddyn nhw. Ni fynnwn warafun ei gred i unrhyw un, ond rhaid cyfaddef nad wyf fi yn un o'r rheini, a cheisiaf yma nodi fy rhesymau am hynny: dau brif reswm yn wir.

Y mae'r cyntaf yn ymwneud â'r cyfyngder y mae trigo mewn corff yn ei olygu. Ni allwn yn gorfforol fod mewn mwy nag un lle ar y tro. Yma yr wyf gartref yn teipio hwn wrth fy nesg. Ni allaf fod yn unman arall, alla i? Gallaf yn feddyliol, wrth gwrs; gallaf fod yn rhywle a chydag unrhyw un o'm cydnabod. Ond yn gorfforol – na, dim hyd yn oed gyda fy ngwraig yn y stafell nesa. Rwyf mor gaeth yn gorfforol â hynny! Rwy'n hollol gyfyngedig i un lle, fel pob un ohonoch sy'n darllen hwn.

A fyddai Crist, oedd ei hun yn gyfyngedig felly pan oedd ar y ddaear, yn dychwelyd wedi ei farwolaeth i'r un cyfyngdra, yn dal yn gaeth i'w gnawd? Byddai, meddai'r rhai sy'n credu'n llythrennol yn yr atgyfodiad. Ond pan esgynnodd i'r nefoedd, meddent, roedd o'n rhydd wedyn. Ie, yr esgyniad, yr hanes mwyaf anhygoel yn y Beibl i gyd, a digwyddiad nad yw wir yn cael fawr o sylw yn yr Ysgrythurau, na chan neb arall chwaith. Mytholeg lwyr, greda i, a'r syniad o fynd **i fyny** i'r nefoedd, yn syniad hen ffasiwn, hygoelus, ond syniad yr oedd yn rhaid i'r rhai a gredai yn atgyfodiad llythrennol y corff ei gredu. Wel, roedd yn rhaid i'r corff atgyfodedig fynd i rywle!

Yr ail reswm yw fod yna ddigon o dystiolaeth nad oedd Iesu yn gyfyngedig i'w gorff pan atgyfodwyd ef. Nid atgyfodiad corfforol felly. Ystyriwch yr adnodau hyn o'r Beibl:

Hanes y ddau ar y ffordd i Emaus sy'n cynnwys yr adnod: 'A'u llygaid hwynt a agorwyd, a hwy a'i hadnabuasant ef: ac **efe a ddiflannodd allan o'u golwg hwynt**.' (Luc 24:31)

Crist wrth Mair: 'Yr Iesu a ddywedodd wrthi, **na chyffwrdd â mi**, oblegid ni ddyrchefais i eto at fy Nhad.' (Ioan 20:17)

Pam? Am nad oedd oedd 'corff' yno?

'Yna a hi yn hwyr y dydd cyntaf hwnnw o'r wythnos, **a'r drysau yn gaead** ... daeth yr Iesu.' (Ioan 20:19)

'Yna yr Iesu a ddaeth **a'r drysau yn gaead**, ac a safodd yn y canol ...' (Ioan 20:26)

Mae yna emynau hefyd sy'n awgrymu'n gryf nad person o gig a gwaed oedd Crist wedi'r atgyfodiad. Dyma ddau:

> Mae'r Un a fu'n blentyn ei oes
>
> **Yn gaeth** i'w genhedlaeth ei hun,
>
> Yn **perthyn i'r oesau** trwy'r groes,
>
> Yn unwr, cydoeswr pob un.

Dyma thema emyn ardderchog D. G. Merfyn Jones: 'Mae'r Gŵr a fu gynt yn y llys' o fod yn gorfforol gaeth i fod yn perthyn i'r oesau.

Ac eto, John Roberts y tro hwn:

> O tyred i'n gwaredu, Iesu da,
>
> fel cynt y daethost **ar dy newydd wedd**.

Dyma nodi hefyd, fel y gwnes i o'r blaen, mai'r Groeg am y gair 'ymddangos' yn y Gymraeg yw *ophthe*, sef gair i gyfleu gweledigad ysbrydol yn hytrach nag ymddangosiad corfforol.

A oes yna mewn gwirionedd ddau Grist: y Crist corfforol droediodd ein daear dros ddwy fil o flynyddoedd yn ôl, ac a ddangosodd inni ffordd cariad o fodoli a gweithredu yn y byd; a'r Crist atgyfodedig sy'n rhan o fyd yr ysbryd, ddaeth atom 'ar ei newydd wedd', un yr oedd rhai o'i ddilynwyr cynnar yn credu mor angerddol ynddo nes tybio eu bod yn ei weld yn gorfforol? Dwi'n dal yn ddryslyd fel llawer un arall, rwy'n tybio, gan gynnwys aelodau ein Cylch Trafod. A ydw i hefyd, oherwydd fy amheuon a'm cred, yn golledig ? Falle wir.

*Elfyn Pritchard*

## Swyddfa Undeb Bedyddwyr Cymru wedi symud

Mae'r gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i adleoli swyddfa'r enwad o fewn tref Caerfyrddin. Daeth cyfnod y Llwyfan i ben ac ar hyn o bryd mae'r symud yn digwydd – ond heb fod yn bell iawn o'r swyddfa flaenorol.

Bu staff yr Undeb wrthi'n symud archifau ac eiddo'r Undeb draw i'r swyddfa newydd yn ystod yr wythnos 7–11 Ebrill, a diolch am eich dealltwriaeth yn ystod y cyfnod hwnnw!

Cyfeiriad newydd UBC fydd:
Undeb Bedyddwyr Cymru,
Adeilad 2 Parc Dewi Sant,
Heol Ffynnon Job,
Caerfyrddin,
SA31 3HB



# Yr Athro John Heywood Thomas (1926–2025)



Gyda marwolaeth John Heywood Thomas yn 98 oed ar 6 Ebrill eleni, daeth i ben genhedlaeth nodedig iawn o addysgwyr diwinyddol yng Nghymru. Yn frodor o Lwynhendy, Llanelli, graddiodd mewn Athroniaeth yn Aberystwyth yn 1947 cyn hyfforddi am y weinidogaeth Annibynnol yng Ngholeg Presbyteraidd Caerfyrddin. Ymhlith ei gyfoeswyr oedd Dewi Eirug Davies, a fu wedyn yn Athro Athrawiaeth Gristnogol yn y Coleg Coffa, Abertawe, yn Athro ac yn Brifathro ar Goleg yr Annibynwyr Cymraeg, Aberystwyth; J. Alwyn Charles, a fu'n Athro Athrawiaeth yng Ngholeg Bala–Bangor, a'i olynydd, E. Stanley John, a olynodd yn ei dro Eirug Davies fel Prifathro Coleg yr Annibynwyr Cymraeg. Roeddent yn do disglair a gyfrannodd yn helaeth at addysg ddiwinyddol yng Nghymru, ond yn Lloegr gan mwyaf y gwasanaethodd John Heywood Thomas.

Yn dilyn cwrs ymchwil yng Nghaergrawnt, lle'r arbenigodd ar waith Soren Kierkegaard, y meddyliwr hynod o Ddenmarc, croesodd yr Iwerydd yn 1952 i eistedd wrth draed y dysgawdr Paul Tillich, gŵr a fynnai, fel y Daniad, gyfuno'r ffydd Gristnogol â'r athroniaeth ddirfodol – *existentialism* – a phwysleisio'r cysyniad o 'naid ffydd' a'i oblygiadau. Er yn werthfawrogol o gyfraniad Tillich – cyfeiriodd Tillich ato fel '*my logical critic*' – gallai fod yn ddigon beirniadol o'i syniadaeth hefyd, ond daeth yn un o'i ddehonglwyr mwyaf treiddgar. Yn 1965 dyfarnodd Prifysgol Cymru Ddoethuriaeth mewn Diwinyddiaeth iddo ar sail ei gyhoeddiadau ar y ddau feddyliwr hwn, y trydydd un erioed i dderbyn y radd honno.

Erbyn hynny roedd yn ddarlithydd ym Mhrifysgol Manceinion; yna'n ddarllenydd ym Mhrifysgol Durham, cyn ei benodi yn 1974 i gadair Diwinyddiaeth ym Mhrifysgol Nottingham. Bu'n freuddwyd oes ganddo ddychwelyd i weithio yn ei wlad ei hun, ac yn 1992, blwyddyn ei ymddeoliad o Nottingham, fe'i penodwyd yn Athro Anrhydeddus yn Ysgol Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol Prifysgol Bangor. Symudodd ef a Mair, ei wraig, i Ynys Môn yn gyntaf, ac yna i Fro Morgannwg. Cafodd ymddeoliad hir a ffrwythlon, gan gyfrannu at weithgarwch adrannau Athroniaeth a Diwinyddiaeth Urdd y Graddedigion ac i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Braint arbennig i E. Gwynn Matthews a minnau oedd golygu casgliad o'i ysgrifau Cymraeg yn y gyfres 'Astudiaethau Athronyddol', *Dirfodaeth, Cristnogaeth a'r Bywyd Da* (2016). Yn eisteddfodwr brwd, cafodd ei urddo'n aelod o Orsedd y Beirdd yn 1972 a'i benodi'n Gymrawd o Gymdeithas Ddysgedig Cymru yn 2012.

Er ei holl ddysg a'i ddisgleirdeb, roedd yn ŵr annwyl ac yn Gristion diymhongar. Fe'i galwyd beth amser yn ôl gan ei eglwys leol, Eglwys Bresbyteraidd Tre-hyl, Sain Nicolas, yn fugail ac yn weinidog anrhydeddus. Yno, ar 1 Mai, y cynhelir ei wasanaeth coffa.

*D. Densil Morgan*
*Llanbedr Pont Steffan*

## Ymddeoliad y Parchedig R. Gareth Morris



Wedi 17 mlynedd yn weinidog ar Eglwys y Bedyddwyr Blaenwaun, Llandudoch, fe wnaeth y Parchedig R. Gareth Morris ymddeol ddiwedd 2024. Bu'n gwasanaethu'r eglwys gydag urddas ar hyd y blynyddoedd, gan bregethu'r Gair a'n tywys drwy dreialon bywyd yn gwbl ddiffuant. Er iddo ddioddef cyfnodau o afiechyd ei hun, bu'n driw i'w alwedigaeth o'r oedfa i'r aelwyd, a braf oedd medru cael ei arweiniad doeth a'i gyfeillgarwch am gynifer o flynyddoedd. Ymunodd aelodau Capel Degwel, eglwys annibynnol y pentre, â ni yn oedfa gymun olaf y flwyddyn, ac yn 2025 rydym yn cydaddoli unwaith y mis a'r cymun ar wahân yn y ddwy eglwys. Dymunwn yn dda i Gareth ar ei ymddeoliad, gan ddiolch yn fawr iddo am weinidogaethu Eglwys Blaenwaun.

## *Caniadaeth y Cysegr – cyfle i chi ddewis emyn*



Bydd rhaglen *Caniadaeth y Cysegr* fydd yn cael ei darlledu ar 4 Mai chydig yn wahanol i'r arfer.

Chi fydd yn dewis yr emynau!

Os oes 'na emyn y byddech chi'n hoffi ei glywed, gadewch i ni wybod. A chofiwch ddweud wrthyn ni pam rydych chi wedi gwneud y dewis.

Y cyfeiriad ebost ydi: caniadaeth@bbc.co.uk, neu gallwch anfon llythyr at Caniadaeth y Cysegr, BBC Radio Cymru, Sgwâr Canolog, Caerdydd, CF10 1FS.

# Undod Cristnogol mewn Byd sy’n Chwalu

WYTHNOS 7

## Eglwysi ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon – myfyrdodau ar gyfer y Grawys

**Agenda newydd dros heddwch**

**Darlleniad**
*Luc 19:28–44*

**Myfyrdod**
Credai’r Ymerawdwr Cystennin y byddai undod crefyddol yn helpu i dawelu ei ymerodraeth. Yn ein myfyrdodau wrth gofio Cyngor Nicea 1700 o flynyddoedd yn ôl, rydym wedi bod yn ystyried gobaith tebygol y rhai oedd yn bresennol yn y Cyngor y byddai undod yr Eglwys yn arwain at heddwch yn y byd. Buom yn holi ein hunain sut y gallai gweledigaeth newydd ac agenda newydd ar gyfer heddwch fod yn rhan o’n myfyrdodau wrth inni gofio am y digwyddiad hwn.

Does dim amheuaeth nad yw’r gwaith o hybu undod Cristnogol yn cynorthwyo’r Eglwys i lunio gweledigaeth o heddwch. Ond mae ein darlleniad o’r Ysgrythur heddiw yn ein hatgoffa y bydd gan yr Eglwys deyrngarwch uwch bob amser a all ein galw i herio grym gwladwriaethau a sefydliadau.

Nodweddid arweinyddiaeth Crist gan aberth a gwasanaeth, a’r dewrder i herio deddfau ac arferion oedd yn eithrio ac yn niweidio pobl. I ba raddau y gallai gweledigaeth yr Eglwys am heddwch heddiw a dychymygu’r hyn a allai fod yn bosibl gael eu cyflyru gan strwythurau grym o waith dyn y gellir eu newid?

Yn ein cyd-destun ni, mae’r Eglwys wedi colli llawer o’i breintiau yn y meysydd gwleidyddol a chymdeithasol. Mae hyn yn rhoi inni brofiad o gael ein gwthio i’r cyrion ac yn ein galluogi i sefydlu cysylltiadau ac uniaethu’n well ag eraill – rhai sy’n teimlo’u bod wedi’u dieithrio neu’n ei chael hi’n anodd i gael eu clywed. Ac eto, mae yna hefyd lawer o enghreifftiau o ffyrdd y mae’r Eglwys yn parhau i fwynhau rhai breintiau yn ein cymdeithas. Beth fyddem ni’n barod i’w roi’n ôl wrth weithredu agenda newydd ar gyfer heddwch?

Wrth i ni weld effaith ddinistriol y pwyslais cynyddol ar hawl yr unigolyn, mae gan yr Eglwys y potensial i gynnig llais gwrthddiwylliannol cryf. Gall ein galw yn ôl i wasanaethu a thuag at y gwaith o adeiladu cymuned, ar yr amod bod hyn yn cael ei gefnogi gan gamau gweithredu sy’n dangos ein hymrwymiad ar waith.

Gallwn feddwl yn hawdd am nifer o enghreifftiau o’r math hwn o wasanaeth yng nghyd-destun ein heglwysi lleol, a gefnogir yn aml gan waith eciwmenaidd. Ymysg y rhain y mae darparu banciau bwyd a hybiau cynnes, gwaith bugeiliaid stryd, a gweithredu dros gyfiawnder hinsawdd. Mae hyn yn cynnig sylfaen gref ar gyfer siarad yn broffwydol am agenda newydd ar gyfer heddwch – un sy’n ymestyn o’n cymunedau lleol i rwydweithiau perthynas ryngwladol yr Eglwys ledled y byd.

**Cwestiynau ar gyfer myfyrio a thrafod**

- Beth fyddai cynnwys agenda newydd ar gyfer heddwch gan yr Eglwys yn eich cyd-destun lleol?
- Allwch chi nodi unrhyw freintiau y gallai fod angen i’r Eglwys roi’r gorau iddynt i fod yn fwy cynhwysol yn ei gweledigaeth o heddwch?
- Beth, yn eich barn chi, allai fod yn amharu ar arweiniad yr Eglwys yng ngwaith heddwch?




**Gweithredu**

- Rhestrwch rai o’r bygythiadau i heddwch sy’n peri pryder i chi yn eich cymuned leol a/neu’n rhyngwladol heddiw. Ble ydych chi’n gweld yr Eglwys yn gweithredu ar y materion hyn? Beth arall ellid ei wneud?
- Allech chi ymrwymo i hyrwyddo gwaith heddwch yn eich eglwys leol neu’ch grŵp eciwmenaidd?

**Gweddi**
Arglwydd,
addewaist i ni
heddwch sydd y tu hwnt
i’n dealltwriaeth ddynol.
Helpa ni i ymddiried
yn y weledigaeth honno
a pheidio â gadael i’n dychymyg
gael ei gyfyngu
gan yr hyn a wyddom
a’r hyn yr ydym wedi ei brofi.
Arwain ni tuag at
arweinyddiaeth gwas anhunanol
all helpu i chwalu
y muriau a adeiladwyd gan
unigolyddiaeth
a chyrraedd mwy o bobl
gyda’r addewid o heddwch
a chynllun i’w gyflawni.
Amen.




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 20 Ebrill am 7yh – Sul y Pasg**
Bydd Nia Roberts yn ardal Llŷn ac Eifionydd i ddathlu’r Pasg gydag awr o ddarlleniadau, perfformiadau a chanu mawl. Daw’r emynau o Gapel y Traeth, Cricieth, ac ymhlith y perfformwyr cerddorol disglair bydd Mared Williams, Arfon Wyn ac ensemble lleisiol Glanaethwy.

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 20 Ebrill, am 7:30yb a 2:00yp**
Emynau Sul y Pasg yng nghwmni Aled Lewis Evans, Wrecsam

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 20 Ebrill, am 12:00yp**
Oedfa Sul y Pasg dan ofal Rosa Hunt

# Llythyr Agored gan Eglwysi Cymru ynglŷn â thoriadau Cymorth y Deyrnas Unedig

2 Ebrill 2025

At sylw:

- Keir Starmer AS, Prif Weinidog y Deyrnas Unedig
- Jo Stephens AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru
- Eluned Morgan AS, Prif Weinidog Cymru
- Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol
- Derek Walker, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

**Llythyr agored – Cytûn: Eglwysi ynghyd yng Nghymru yn gwrthwynebu toriadau cymorth llywodraeth y Deyrnas Unedig yn Natganiad Gwanwyn y Deyrnas Unedig**

Rydym yn ysgrifennu ar ran Ymddiriedolwyr Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru i fynegi ein pryder dwys am benderfyniad Llywodraeth y Deyrnas Unedig ym mis Mawrth i dorri'r gyllideb ar gyfer cymorth rhyngwladol a'r diffyg symud ar y mater hwn yng nghyhoeddiad cyllideb y Deyrnas Unedig ar 26 Mawrth.

Er ein bod yn croesawu addewid Llywodraeth y Deyrnas Unedig o roi £22.45m tuag at ymateb dyngarol allweddol yn dilyn y daeargryn ym Myanmar ddydd Gwener, 28 Mawrth, mae'n hanfodol nodi y bydd torri'r gyllideb cymorth yn golygu y bydd amgylchiadau'n gwaethygu yn yr hirdymor i lawer o gymunedau ledled y byd sy'n profi anghyfiawnder tlodi.

Cadarnhaodd Datganiad Gwanwyn y Deyrnas Unedig y bydd arian o'r gyllideb Cymorth Datblygu Swyddogol yn dechrau cael ei symud i ariannu cynnydd yn y gwariant ar amddiffyn, gan leihau cyllideb cymorth y Deyrnas Unedig o 0.5% i 0.3% o'r Incwm Gwladol Gros (GNI) erbyn 2027, sef y gyfran isaf o ddatblygiad tramor ers 1999.

Fis ar ôl y cyhoeddiad cychwynnol ac ymddiswyddiad dilynol y Gweinidog Datblygu Rhyngwladol, mae'n sioc ac yn siom nad oes unrhyw newid wedi bod mewn polisi, er gwaethaf galwadau croch ar draws y gymdeithas sifil a sefydliadau dyngarol i wrthdroi'r penderfyniad.

Cafodd llythyr ei lofnodi gan Gymorth Cristnogol a CAFOD, sy'n aelodau o Cytûn, yn ogystal â dros 130 o gyrff anllywodraethol o bob cwr o'r Deyrnas Unedig, yn galw ar y Prif Weinidog a'r Trysorlys i wrthdroi eu penderfyniad i dorri'r gyllideb cymorth. Mae'r llythyr yn nodi bod rhaglenni sy'n cefnogi cymunedau ymylol sy'n wynebu tlodi, gwrthdaro a newid yn yr hinsawdd yn y fantol, yn sgil y cyhoeddiad hwn.

Mae cymorth datblygu rhyngwladol wedi bod yn gonglfaen i ymrwymiad hirhoedlog y Deyrnas Unedig i undod byd-eang ac egwyddorion dyngarol. Er ein bod yn cydnabod bod diogelwch a sicrwydd i bobl ledled y Deyrnas Unedig yn flaenoriaeth, mae dewis cynyddu'r gwariant ar amddiffyn ar draul y cymunedau tlotaf a mwyaf ymylol yn y byd nid yn unig yn foesol bryderus ond yn beryglus o annoeth. Rydym yn poeni bod torri cymorth yn y modd hwn yn gwaethygu'r union argyfyngau sy'n arwain at ansicrwydd a gwrthdaro. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae lefelau gwrthdaro ledled y byd wedi dyblu, gan adael un o bob wyth o bobl yn agored i ryfel. Y gwir amdani yw y bydd toriadau cymorth yn costio bywydau, gyda chynifer yn dioddef effeithiau tlodi eithafol, newid yn yr hinsawdd a gwrthdaro - ym Myanmar, Gaza, Libanus, Sudan, Wcráin a Gweriniaeth Ddemocrataidd Congo, ac enwi dim ond rhai. Mae cyllid datblygu, o'i ddefnyddio'n iawn, yn chwarae rhan hanfodol wrth atal gwrthdaro, mynd i'r afael ag ansefydlogrwydd, adeiladu gwytnwch a meithrin byd tecach, mwy diogel.

Rydym yn annog Llywodraeth y Deyrnas Unedig nid yn unig i wrthdroi'r penderfyniad hwn, ond hefyd i ystyried o ddifrif y mecanweithiau ariannu amgen sydd ar gael i ni a allai sicrhau'r cyllid sydd ei angen. Er enghraifft, gellid cyflwyno mesurau 'y llygrwr sy'n talu' i ysgogi cyllid mewn perthynas â'r hinsawdd a chanslo dyled anghyfiawn ac anghynaliadwy. Yn ôl Cymorth Cristnogol, mae llawer o wledydd Affrica bellach yn gwario mwy ar dalu dyledion allanol nag y maen nhw'n ei wario ar ofal iechyd, tra mae 25 o wledydd yn gwario mwy ar ddyled nag ar addysg. Hyd yn oed cyn y toriadau i'r cymorth, roedd Affrica eisoes yn gwario 50 gwaith yn fwy ar ad-dalu dyledion nag yr oedden nhw'n ei dderbyn mewn cymorth gan y Deyrnas Unedig. Gallai canslo'r ddyled anghyfiawn ac anghynaliadwy sy'n ddyledus gan wledydd incwm is i sefydliadau ariannol y Deyrnas Unedig ryddhau biliynau y gellid eu gwario'n uniongyrchol gan y llywodraethau hynny ar eu seilwaith a'u rhaglenni lliniaru tlodi eu hunain.

Fel Cenedl Noddfa a chenedl sydd â rhwymedigaeth ddeddfwriaethol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i gynnal undod byd-eang, mae'r penderfyniad i leihau'r gyllideb cymorth nid yn unig yn groes i'n gwerthoedd fel cenedl ond hefyd yn tanseilio ein cyfreithiau arloesol. Felly, rydym hefyd yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgysylltu â Llywodraeth y Deyrnas Unedig, gan alw arnynt i wrthdroi'r penderfyniad hwn ac adfer y gyllideb cymorth yn llawn. Rydym hefyd am iddynt alw am gamau newydd ac arloesol i ysgogi mwy o gyllid i fodloni holl ymrwymiadau a rhwymedigaethau Llywodraeth y Deyrnas Unedig mewn perthynas â gwariant ar amddiffyn a chymorth.

Mae mantoli'r gyllideb ar draul cymunedau tlotaf a mwyaf ymylol y byd yn gwbl annerbyniol. Mae cymorth rhyngwladol yn achub bywydau drwy fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb ledled y byd; mae'n atal gwrthdaro, yn achub bywydau, ac yn cefnogi'r rhai sydd yn yr amgylchiadau anoddaf. Nid yw'r mater hwn yn benderfyniad anodd ond yn hytrach yn ddewis gwleidyddol y mae'n rhaid ei wrthdroi er sefydlogrwydd a chyfiawnder byd-eang.

Byddem yn falch o dderbyn ymateb ar y canlynol:

- Sut y bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cymryd camau i adfer y gyllideb cymorth a pha gamau y bydd yn eu cymryd i gyflwyno mesurau 'y llygrwr sy'n talu' i ysgogi cyllid mewn perthynas â'r hinsawdd a chanslo dyled anghyfiawn ac anghynaliadwy?
- Pa gamau fydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i eirioli dros adfer cyllideb cymorth y Deyrnas Unedig ac i ysgogi camau tuag at gyllido arloesol? Pa effaith fydd toriadau i gyllideb cymorth y Deyrnas Unedig yn ei chael ar gyfraniad Cymru at undod byd-eang?

Byddem yn hapus i gwrdd â chi i drafod y materion hyn yn fwy manwl.

Credwn fod cymunedau ffydd a'r gymdeithas ehangach yng Nghymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i werthoedd dinasyddiaeth fyd-eang ac undod. A chredwn fod angen newid systemig, hirdymor fel y gall pawb fyw mewn byd sy'n rhydd o anghyfiawnder tlodi.

Yn gywir

Jennifer Hurd (Y Parch.)
Cadeirydd Cytûn

Cynan Llwyd (Dr)
Ysgrifennydd Cyffredinol Cytûn

Mari McNeill (Mrs)
Pennaeth Cymorth Cristnogol Cymru

# Gweddi ar gyfer y Pasg, 2025

**Arweinydd**: Annwyl Dad, credwn mai Ti yw egni creadigol y bydysawd hwn. Ti yw cychwyn a ffynhonnell pob peth gweledig ac anweledig. Ti yw'r Alffa a'r Omega, y dechrau a'r diwedd.

Diolchwn fod gennym elfen fach o ymwybyddiaeth ohonot er mai rhannol a chyfyngedig yw ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth.

**Cynulleidfa: A wnei di, os gweli'n dda, oleuo ein deall i fod yn fwy cywir ac yn ehangach ohonot y Pasg hwn?**

**Arweinydd**: Gwerthfawrogwn y cyfle a'r anogaeth gan Iesu ei hun i ymgynnull lle bynnag y mae dau neu dri pherson yn arddel ei berson, ei ddysgeidiaeth a'i barodrwydd i fod yn ein plith trwy ei lân Ysbryd.

**Cynulleidfa: Tyred, Arglwydd, i'n plith yn dy dosturi a chynhesa ein calonnau oeraidd a rhewllyd.**

**Arweinydd**: Mae ein bywyd yn dlawd iawn ac yn drist, heb fod gennym ddealltwriaeth ddyfnach o beth yw ystyr ein byw a chanfod a chydnabod pwy wyt ti.

**Cynulleidfa: Arglwydd trugarog, a wnei di adfer a chynnal ein blas ar fyw?**

**Arweinydd**: Gosodaist reidrwydd cydwybod ynom i gofio am unigolion a theuluoedd sydd wedi eu llethu mewn dagrau a thristwch gan gasineb, anghyfiawnder, rhyfel a gormes yn ein byd rhwygedig a rhyfelgar.

**Cynulleidfa: Eiriolwn hefyd dros y rhai sy'n dioddef newyn enbyd yn eu bywyd.**

**Arweinydd**: Mae rhai yn ein plith ni sy'n ddigartref, yn ddi-deulu, ac eraill sy'n ddi-waith a heb unrhyw obaith real am wellhad buan yn eu hamgylchiadau.

**Cynulleidfa: Gwna ni'n fwy effro ac ymwybodol o drafferthion ac argyfyngau ym mywydau ein cymdogion, ein cyd-weithwyr a'n cyd-aelodau.**

**Arweinydd**: Eiriolwn dros y rhai sydd wedi colli anwyliaid ac eraill sydd wedi eu cyfyngu gan afiechyd corfforol neu feddyliol.

**Cynulleidfa: Diolchwn o galon am ein Gwasanaeth Iechyd Gwladol, a phob un sy'n cyfrannu at lwyddiant y gwasanaeth er gwaethaf yr anawsterau.**

**Arweinydd**: Helpa ni y Pasg hwn i geisio agosáu atat Ti, i arddel yr hyn y dylem ei gredu am ddioddefaint y Groes a phrofiadau rhyfeddol dilynwyr Iesu wrth iddynt ymweld â'r bedd oedd yn wag ar y trydydd dydd.

**Cynulleidfa: Caniatâ i ni ddealltwriaeth lawnach a dyfnach o'r hyn sy'n wirionedd perthnasol a real i'n bywydau ni heddiw.**

**Arweinydd**: Cofiwn, gyda diolch, am fywydau'r ymadawedig o blith ein teuluoedd, ein cyd-aelodau, ein cydnabod ac eraill o'n cymdogaeth. Diolchwn am y fraint o'u hadnabod a'r budd ddaeth i'n rhan o dreulio amser gwerthfawr a chofiadwy yn eu cwmni.

**Cynulleidfa: Diolchwn, Arglwydd, am y dylanwadau da fu ar ein bywydau ar ein haelwydydd, gerbron yr allor yma, yn yr ysgolion, ac ymhlith ein cydnabod ar ein pererindod ar y blaned hon.**

**Arweinydd**: Mynegwn ein diolch a'n gwerthfawrogiad o'r dylanwadau gwerthfawr hyn yn ystod munud o dawelwch a chof amdanynt … **Amen**.

*Gwilym Wyn Roberts*

DARLITH FLYNYDDOL MORLAN-PANTYFEDWEN 2025

**Corddi Dyfroedd y Gydwybod Gymraeg: Heddychiaeth a Chenedlaetholdeb E. Prosser Rhys**

Darlith gan **Dr Gareth Evans-Jones**
Ysgol Hanes, y Gyfraith a Gwyddorau Cymdeithas, Prifysgol Bangor

Nos Lun, 12 Mai, 2025
5.30 o'r gloch
Canolfan Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth

CROESO I BAWB!

Canolfan Morlan / Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen
01970 612806 /
post@jamespantyfedwen.cymru




Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru